

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

### Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol

#### Dyddiad:

6ed Chwefror, 2025

#### Presennol

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg), Cyngorydd June Jones (Cyngorydd Cyngor Gwynedd)

#### Ymddiheuriadau

Huw Pritchard (Pentrefelin), Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)

#### Datgan Buddiant

Gwilym Evans - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Richard Williams - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Iddon Edwards - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Richard Parry - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Raymond Jones - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Megan Lloyd Williams - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)  
Enid Egginton - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)

#### Penderfyniadau

##### Rhoddion Ariannol

Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:

- Cyfeillion Ysgol y Gorlan - £300.00
- Neuadd Goffa Penmorfa - £300.00
- Canolfan Prenteg - £300.00
- Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen - £300.00
- Clwb Merched Garndolbenmaen - £100.00 \*\*\*
- Canolfan Gymdeithasol Golan - £300.00
- Canolfan Pentrefelin - £300.00
- Eisteddfod Garndolbenmaen - £300.00
- Hosbis Dewi Sant - £300.00
- Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Garndolbenmaen - £300.00

- Apêl Sir Gaernarfon 2025 Y Sioe Frenhinol - £300.00
- Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri - £300.00

\*\*\* Gan nad oes cyfrif banc gan Glwb Merched Garndolbenmaen penderfynwyd rhoi siec o £100 i Ysgol Garndolbenmaen i dalu am y gost o logi ystafell yno.

Roedd pawb yn gytûn wrth ddyrannu'r arian.

#### Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd penodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn.

#### Ceisiadau Cynllunio:

**C24/1073/36/LL:** Tyddyn Ysguboriau, Lôn Tabor, Pentrefelin, LL52 0BA - Estyniad arfaethedig i adeilad amaethyddol presennol. Dim gwrthwynebiad.